Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Llandinam
# Llandinam
# Powys
# SY17 5BY

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/07/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Sirol Llandinam ym mhentref Llandinam, mewn ardal wledig rhwng Llanidloes a'r Drenewydd ym Mhowys. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod o'r pentref neu'r ardal wledig gyfagos, er bod rhai ohonynt yn byw y tu allan i'r dalgylch dynodedig. Mae disgyblion yn cwmpasu'r ystod gallu llawn, ac nid ydynt yn dod o gefndir sydd naill ai'n ffyniannus na than anfantais yn economaidd.

Yn ystod yr arolygiad, roedd 43 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr. Mae pob un o'r disgyblion yn dod o gartrefi Saesneg. Nid oes unrhyw ddisgyblion o gartrefi lle caiff y Gymraeg ei siarad fel mamiaith. Nid oes unrhyw ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Ar hyn o bryd, mae gan 15% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r cyfartaledd hwn yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol, ond yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 29% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Penodwyd y pennaeth ym Medi 2004. Yn ogystal â'r pennaeth, mae un athro amser llawn arall a dau o athrawon rhan-amser. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mai 2007.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llandinam yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,255 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd ym Mhowys yw £8,253 a'r isafswm yw £3,807. Mae Ysgol Gynradd Llandinam yn yr 20fed safle o'r 99 o ysgolion cynradd ym Mhowys o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais ac mae ganddynt agwedd dda tuag at ddysgu;
- bod profiadau dysgu cyfoethog ac addysgu o ansawdd da yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu cymell ac yn ymgysylltu;
- bod yr ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol sy'n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn, parch at bobl a chydraddoldeb; a
- bod y gofal, y cymorth a'r arweiniad o ansawdd da a roddir i ddisgyblion yn effeithio'n dda ar eu safonau a'u lles.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n canolbwyntio'n glir ar wella lles a safonau disgyblion;
- bod pob aelod o staff yn glir ynglŷn â'u rolau, maent yn cefnogi ei gilydd, yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac maent yn cymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau i wella'r ysgol;
- bod gan yr ysgol wybodaeth dda am ei chryfderau a'i gwendidau; a
- bod trefniadau partneriaeth cadarnhaol yn cyfrannu'n dda at safonau a lles disgyblion.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau dwyieithog disgyblion ymhellach.

A2 Rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

A3 Sicrhau cysondeb mewn asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn fwy ymwybodol o'r hyn y mae angen ei wneud i wella eu gwaith eu hunain.

A4 Gwella lefel yr her a gynigir gan y corff llywodraethol mewn perthynas â pherfformiad yr ysgol.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau sy'n is na'r hyn sydd fel arfer yn ddisgwyliedig ar gyfer disgyblion o oedran tebyg. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol a disgyblion mwy abl, yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda.

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi'i ddysgu. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad yn hyderus mewn ystod eang o sefyllfaoedd â staff, ymwelwyr ac â'i gilydd. Maent yn gwrando'n dda iawn ac yn parchu safbwyntiau pobl eraill. Gallant ganolbwyntio am gyfnodau priodol mewn gwersi.

Mae safonau darllen yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn trin llyfrau'n dda ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at ddysgu. Defnyddiant ystod o strategaethau i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn dda. Maent yn dangos diddordeb yn y llyfrau y maent yn eu darllen ac mae llawer ohonynt yn darllen gyda rhuglder, cywirdeb a dealltwriaeth gynyddol. Maent yn galw i gof eu hoff storïau. Maent yn ymwybodol o wahanol fathau o lyfrau, gan gynnwys rhai ffuglen a ffeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at ddarllen. Mae llawer ohonynt yn darllen ystod eang o destunau gyda rhuglder, cywirdeb a mynegiant da. Maent yn siarad yn rhwydd am lyfrau ac awduron y maent yn eu hoffi a gallant esbonio pam maent yn mwynhau darllen llyfrau gan yr awdur hwnnw. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gymeriadau a rhediad stori. Gall disgyblion mwy abl frasddarllen darn yn gynyddol i gael ei ystyr a chasglu gwybodaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda mewn gwahanol bynciau a gallant leoli a defnyddio cyfeirlyfrau yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da gyda'u medrau ysgrifennu cynnar. Maent yn ysgrifennu'n llwyddiannus ac yn annibynnol at ystod o ddibenion. Mae'r mwyafrif ohonynt yn ysgrifennu mewn brawddegau llawn gydag atalnodi priodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n dda mewn amrywiaeth o ffurfiau. Gallant ddefnyddio ystod briodol o strwythurau brawddeg, ac erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu mewn paragraffau ac yn defnyddio ystod eang o eirfa i ychwanegu diddordeb at ddarnau gwaith. Mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu darnau estynedig sy'n ddiddorol; maent yn addasu eu harddull yn dda fel ei bod yn addas ar gyfer y gynulleidfa a fwriedir. Mae disgyblion llai abl yn gwneud cynnydd priodol ac yn cyflawni yn unol â disgwyliadau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn atgyfnerthu ac yn ymestyn eu medrau ysgrifennu'n dda i gynhyrchu darnau estynedig o ysgrifennu o ansawdd da ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran ennill medrau yn y Gymraeg. Maent yn cyflawni'n dda yn eu gwersi strwythuredig ac yn ymateb yn briodol i gyfarchion a chyfarwyddiadau cyffredinol mewn gwersi eraill. Mae eu gallu i ddarllen llyfrau Cymraeg syml yn dda. Mae llawer o ddisgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu darnau byr yn dda gan ddefnyddio geirfa a phatrymau brawddeg cyfarwydd. Prin yw'r disgyblion sy'n defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol y tu allan i'r gwersi hyn.

Dros gyfnod o bedair blynedd, mae canran y disgyblion 11 oed a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn anghyson. Mae wedi bod yn is yn aml na chyfartaleddau ar gyfer ysgolion yn y teulu ac yng Nghymru. O gymharu ag ysgolion sydd â lefelau tebyg o hawl i brydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn golygu ei bod yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf ac yn y 25% isaf yn y ddwy flynedd arall. Mae perfformiad yr ysgol mewn mathemateg wedi golygu ei bod yn y 25% isaf o ysgolion tebyg am y tair blynedd diwethaf.

Mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel uwch (lefel 5) mewn Saesneg a mathemateg yn dangos tuedd o welliant dros y pedair blynedd diwethaf ac mae'n cymharu'n dda â chyfartaleddau ar gyfer ysgolion yn y teulu a Chymru erbyn hyn. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch mewn gwyddoniaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Ni fu unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad bechgyn a merched yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Nid oes adroddiad ar ddeilliannau disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Y rheswm am hyn yw mai dim data blwyddyn yn unig sydd ar gael, a gallai nifer y disgyblion perthnasol arwain at nodi disgyblion unigol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda gan staff. Maent yn hyderus y bydd staff yn trin unrhyw bryderon o ddifrif ac yn gweithredu yn unol â nhw yn gyflym ac yn deg. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol ac adeiladol tuag at fabwysiadu ffyrdd iach o fyw. Mae llawer ohonynt yn awyddus i gymryd rhan yn yr ystod eang o weithgareddau chwaraeon yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Maent yn gweithio'n dda o dan gyfarwyddyd oedolion. Mae ymglymiad cynyddol mewn asesu eu cynnydd eu hunain yn helpu disgyblion i gael dealltwriaeth o'u cryfderau a'u gwendidau. Fodd bynnag, prin yw'r disgyblion sydd â dealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyd-dynnu â'i gilydd yn dda ac mae safonau ymddygiad yn uchel. Mae disgyblion o bob oedran yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus amser egwyl ac amser cinio. Mae pob un ohonynt yn foesgar a chwrtais at ymwelwyr. Mae disgyblion hŷn yn fodelau rôl cadarnhaol iawn yn y ffordd y maent yn rhyngweithio â'r disgyblion iau.

Mae lefelau presenoldeb wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac maent uwchlaw lefelau presenoldeb ysgolion tebyg erbyn hyn. Mae pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau trwy gyfranogi yn y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco ac ysgolion iach. Mae rhan disgyblion iau mewn grwpiau tasg yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o bwysigrwydd eu rôl yng nghymuned yr ysgol. Mae disgyblion yn teimlo bod staff yn gwerthfawrogi eu barn ac yn gwrando arnynt.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda tuag at weithgareddau yn y gymuned. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu datblygiad fel unigolion cyflawn a chyfrifol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol yn yr ysgol a'r tu allan sy'n bodloni anghenion pob disgybl. Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn ymdrin â holl ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae cynllunio athrawon yn fanwl a thrylwyr. Mae athrawon yn adolygu eu cynllunio yn rheolaidd ac yn sicrhau ei fod yn adeiladu'n raddol ar ddysgu blaenorol disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio'n systematig ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion. Mae gwelliannau diweddar mewn cynllunio tymor canolig yn sicrhau cysondeb gwell yn y ddarpariaeth ar gyfer y medrau hyn. Yn benodol, mae'n sicrhau cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddefnyddio ac ymestyn eu medrau darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae darpariaeth dda ar gyfer y dimensiwn Cymreig i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu Cymraeg disgyblion mewn gwersi strwythuredig. Fodd bynnag, nid yw'n hyrwyddo defnydd annibynnol disgyblion o'r iaith yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ailgylchu ac arbed ynni a'u dealltwriaeth o'r byd ehangach yn llwyddiannus. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o fywyd mewn gwledydd eraill ac i ddatblygu i fod yn aelodau aeddfed a chyfrifol o'r gymuned hefyd.

**Addysgu: Da**

Mae staff ac oedolion eraill wedi datblygu perthynas weithio gadarnhaol gyda disgyblion, sy'n meithrin dysgu yn effeithiol. Mae athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol dda. Mae oedolion ychwanegol yn cyfrannu'n llwyddiannus at gefnogi disgyblion llai abl.

Bron ym mhob un o'r gwersi, mae cyflwyniadau athrawon yn frwdfrydig ac yn ennyn diddordeb pob disgybl yn llawn. Defnyddiant ystod o ddulliau addysgu yn

llwyddiannus, sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael eu cymell ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Yn y nifer fach iawn o wersi lle mae addysgu yn llai effeithiol, mae diffyg cyflymder i'r dysgu ac nid yw tasgau bob amser yn herio disgyblion ddigon, yn enwedig y rhai mwy abl.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol. Maent yn rhoi adborth llafar cadarnhaol i ddisgyblion yn ystod gwersi. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd. Mae sylwadau yn gefnogol, ac yn yr enghreifftiau gorau, maent yn helpu disgyblion i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Megis dechrau datblygu y mae ymglymiad disgyblion mewn asesu eu gwaith eu hunain ac mewn gosod targedau ar gyfer gwella.

Gwneir defnydd effeithiol o asesiadau safonedig i fesur cynnydd unigol. Mae'r ysgol wedi gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion lleol eraill i gryfhau dealltwriaeth athrawon o lefelau cyrhaeddiad. Mae ansawdd adroddiadau i rieni yn dda.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae lefel uchel y gofal a'r berthynas dda rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n gryf at les disgyblion. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles disgyblion yn ogystal ag annog eu hymglymiad yn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr sy'n hyrwyddo datblygiad personol, ysbrydol a moesol disgyblion yn dda. Mae hyn yn amlwg iawn yn y gofal a'r cymorth y mae disgyblion yn eu dangos at ei gilydd. Caiff gweithredoedd o gyd-addoli effaith gadarnhaol ar ymddygiad ac agweddau pob disgybl. Mae cysylltiadau lleol cryf gyda'r eglwysi lleol a gyda'r gymuned ehangach yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth dda o fyw mewn cymuned.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o wasanaethau arbenigol ac mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gallu manteisio ar gymorth proffesiynol pan fydd angen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac yn rhoi cymorth cynlluniedig a thargedig. Mae cynlluniau addysg unigol disgyblion yn bodloni eu hanghenion yn dda. Mae staff cymorth yn cyfrannu'n sylweddol at gyflwyno rhaglenni cymorth effeithiol ar gyfer y disgyblion hyn. Mae trefniadau priodol ar waith i roi gwybod i rieni a'u cynnwys.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol lle caiff pob plentyn ei werthfawrogi'n llawn. Mae'n gymuned hapus gydag awyrgylch teuluol lle caiff pob disgybl yr un cyfle i gymryd rhan mewn addysg. Mae hyn yn treiddio trwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol ac yn ategu ei hymrwymiad i hyrwyddo cyfle cyfartal, tegwch a pharch at bawb. Mae pob un o'r staff yn hyrwyddo cynhwysiant yn effeithiol. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu medrau dinasyddiaeth weithredol a dangos gofal ac ystyriaeth at blant a phobl eraill yn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r ysgol yn mynd ati i hyrwyddo agweddau goddefgar, lle mae staff a disgyblion yn rhydd oddi wrth unrhyw fath o aflonyddwch.

Mae'r adeiladau yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion, er nad yw pobman yn hygyrch i'r rhai sydd ag anawsterau corfforol. Mae lefel y glendid yn uchel. Mae staff yn gwneud defnydd da o'r lle sydd ar gael ac mae arddangosiadau lliwgar ac ysgogol yn creu amgylchedd dysgu deniadol ac ysgogol. Mae'r lle diddorol yn yr awyr agored yn adnodd dysgu gwerthfawr iawn. Mae aelodau o gymuned yr ysgol yn gofalu amdano yn dda. Mae disgyblion, staff a rhieni yn gwneud defnydd da o'r man y tu allan ar gyfer ystod o weithgareddau, fel garddio, chwaraeon a gweithgareddau anturus. Mae cyflenwad amrywiol o adnoddau o ansawdd da yn gweddu i anghenion disgyblion yn briodol. Gwneir defnydd da o gyfleusterau lleol fel y neuadd bentref i ymestyn cyfleoedd ar gyfer addysg gorfforol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a phob aelod o staff yn cydweithio'n llwyddiannus i greu amgylchedd dysgu croesawgar, cynhwysol a threfnus ar gyfer pob disgybl. Mae'r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel iddi hi ei hun ac i aelodau eraill o staff ac mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n briodol ar safonau cyflawniad a chynnydd disgyblion unigol.

Mae pob aelod o staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r modd y maent yn cyfrannu at nodau'r ysgol. Mae rolau wedi'u diffinio'n glir yn y tîm staff ac mae pob un ohonynt yn cyflawni eu rolau'n dda mewn perthynas uniongyrchol â chynllun strategol yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r ffordd y caiff yr ysgol ei rhedeg o ddydd i ddydd. Mae llywodraethwyr yn monitro cynnydd yr ysgol tuag at gyflawni'r targedau yn y cynllun datblygu ysgol yn briodol. Mae llywodraethwyr yn gyfarwydd â'r data sy'n dangos safonau cyflawniad disgyblion. Fodd bynnag, mae eu rôl i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am y safonau y mae'n eu cyflawni yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu medrau llythrennedd a rhifedd, yn llwyddiannus. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i sefydlu'n dda. Mae'n ddyddiau cynnar yn yr ysgol o ran datblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol broses hunanarfarnu sefydledig sy'n defnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol yn effeithiol i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r ysgol yn gofyn am safbwyntiau staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yn rheolaidd, ac yn gweithredu yn unol â nhw. Caiff dadansoddi data, arfarnu ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth ac adolygiadau gan asiantaethau allanol eu defnyddio'n effeithiol i lywio'r broses.

Mae blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol yn deillio'n uniongyrchol o feysydd i'w datblygu a nodwyd yn yr hunanarfarniad. Rhoddir ffocws priodol ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen weithio effeithiol sy'n llywio gwaith yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn monitro'r cynnydd yn erbyn y targedau a nodwyd yn ofalus ac mae pob aelod o staff yn deall eu rôl wrth sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol. Mae athrawon yn monitro safonau cyflawniad ac ansawdd addysgu a dysgu yn effeithiol. Mae rhai llywodraethwyr yn datblygu dealltwriaeth dda o'u rôl yn y broses fonitro trwy gymryd rhan mewn arsylwadau gwersi a theithiau cerdded a dysgu.

Mae'r ysgol yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu. Mae staff yn rhannu eu harbenigedd yn dda ac mae'r arfer dda hon wedi gwella safonau disgyblion mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg. Mae athrawon yn gyfranogwyr gweithgar mewn dwy gymuned ddysgu broffesiynol leol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau. Enghraifft dda o hyn yw'r gwelliant diweddar mewn medrau sillafu a datrys problemau disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau da gyda rhieni. Mae bron pob un o'r rhieni yn gwerthfawrogi pa mor hawdd yw hi iddynt allu mynd at yr ysgol. Maent yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda am weithgareddau'r ysgol ac maent yn hyderus bod yr ysgol yn ystyried eu safbwyntiau. Mae cysylltiadau effeithiol gydag eglwysi lleol, y gymuned a sefydliadau gwirfoddol. Mae'r partneriaethau hyn yn cefnogi lles a safonau cyflawniad disgyblion yn dda ac yn galluogi disgyblion i gyfrannu mewn ffordd gadarnhaol at eu cymuned. Enghreifftiau da o hyn yw'r erthyglau y maent yn eu hysgrifennu ar gyfer y cylchgrawn lleol a'u cyfranogiad gweithgar yn sioe'r pentref trwy ddangos cynnyrch eu gardd a chymryd rhan mewn cystadlaethau celf a barddoniaeth.

Mae'r cysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a'r lleoliad cyn-ysgol ar y safle yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n ddidrafferth i'r Cyfnod Sylfaen. Mae cynlluniau pontio effeithiol yn helpu disgyblion i symud yn hyderus i'r ysgol uwchradd. Mae trefniadau ymsefydlu effeithiol sy'n ymateb yn dda i anghenion disgyblion sy'n newydd i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â'r clwstwr lleol o ysgolion. Mae gweithgareddau ar y cyd yn galluogi'r ysgol i rannu adnoddau ac arbenigedd yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau cryf ac effeithiol iawn gyda'r sefydliad addysg bellach lleol. Mae'r ysgol yn elwa ar gael myfyrwyr profiad gwaith yn cefnogi disgyblion yn ystod eu gwersi. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'r awdurdod lleol ac asiantaethau arbenigol i fodloni anghenion penodol disgyblion unigol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr yn rheoli staffio ac adnoddau ariannol yr ysgol yn dda. Maent yn defnyddio staff yn effeithiol i gefnogi dysgu. Mae'r ysgol wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon ar gyfer pob un o'r athrawon. Mae'r trefniadau hyn wedi gwella safonau disgyblion mewn gwyddoniaeth.

Mae arweinwyr yn rhoi trefniadau rheoli perfformiad ar waith yn drylwyr ac mae ganddynt drefniadau effeithiol ar gyfer nodi a bodloni anghenion datblygiad proffesiynol staff.  Mae’r prosesau hyn wedi gwella ansawdd addysgu a dysgu.

Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau er mwyn cefnogi dysgu disgyblion.

Mae trefniadau cyllidebu systematig a chywir wedi cael eu rhoi ar waith ac mae penderfyniadau am wariant yn cysylltu’n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella safonau a lles disgyblion.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni’n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol; felly, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae Ysgol Llandinam yn yr ail safle yn ei theulu o ysgolion o ran ysgolion sydd â'r her fwyaf (ysgolion sydd â nodweddion tebyg o ran prydau ysgol am ddim, ffactorau economaidd gymdeithasol a chanran y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol).

Nifer fach iawn o ddisgyblion sydd ym mhob grŵp blwyddyn, felly mae angen trin data perfformiad yn ofalus.

Nid oes adroddiad data ar ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen nac yng nghyfnod allweddol 2 ar gyfer 2012. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o ddisgyblion sy'n cael eu hasesu yn y ddau gyfnod allweddol i adrodd arnynt heb nodi disgyblion unigol. Gan mai dyma yw'r flwyddyn gyntaf o ddata'r Cyfnod Sylfaen, nid oes data tueddiadau ar gael.

Dros gyfnod o bedair blynedd, mae canran y disgyblion 11 oed sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn anghyson. Yn ystod y cyfnod hwn, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn aml wedi bod yn is na chyfartaleddau ar gyfer ysgolion yn y teulu a Chymru.

O gymharu â pherfformiad ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn golygu ei bod yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf. Roedd perfformiad yr ysgol yn golygu ei bod yn y 25% isaf yn y ddwy flynedd arall. Mae perfformiad yr ysgol mewn mathemateg wedi golygu ei bod yn y 25% isaf o ysgolion tebyg am y tair blynedd diwethaf.

Mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5), mewn Saesneg a mathemateg wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf. Mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch mewn Saesneg a mathemateg yn cymharu'n dda â'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion yn y teulu ac yng Nghymru erbyn hyn. Ychydig iawn o ddisgyblion a gyflawnodd lefel uwch na'r disgwyl mewn gwyddoniaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Mae nifer rhy fach o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim ar ddiwedd pob cyfnod allweddol i roi sylwadau ar eu cynnydd. Nid oes sylw ar berfformiad cymharol bechgyn a merched chwaith gan fod carfannau yn fach ac mae niferoedd y bechgyn a'r merched yn amrywio'n fawr bob blwyddyn.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Llenwyd yr holiadur gan un deg naw o rieni neu ofalwyr. Mae eu lefelau boddhad uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd eraill yng Nghymru.

Dywed pob un o'r rhieni fod eu plant yn hoffi'r ysgol a'u bod yn hyderus bod eu plant yn ddiogel yno. Maent yn cytuno y cafodd eu plentyn gymorth i ymgynefino pan ymunodd â'r ysgol. Dywed pob un ohonynt fod staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn eu parchu. Mae pob rhiant a ymatebodd yn cytuno bod yr ysgol yn annog eu plentyn i fwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae pob un o'r rhieni a ymatebodd yn credu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac mae bron pob un ohonynt yn deall beth i'w wneud os ydynt yn dymuno gwneud cwyn. Mae pob rhiant a ymatebodd yn cytuno bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da, ac mae bron pob un ohonynt yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn. Mae pob un a ymatebodd yn credu bod ymddygiad yn dda.

Mae pob un o'r rhieni yn hapus bod athrawon yn disgwyl i ddisgyblion wneud eu gorau. Mae pob un a ymatebodd yn credu bod yr addysgu'n dda a bod athrawon yn helpu eu plentyn i aeddfedu a chymryd cyfrifoldeb. Dywed pob rhiant fod plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud i'r ysgol uwchradd. Mae bron pob un o'r rhieni a ymatebodd yn cytuno bod y gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae bron pob un ohonynt yn hyderus bod eu plentyn yn cael digon o gymorth ychwanegol ar gyfer eu hanghenion dysgu ychwanegol. Mae pob un o'r rhieni'n credu bod ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Llenwyd yr holiadur gan ddau ddeg o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Roedd ymatebion i fwyafrif y cwestiynau yn agos at y cyfartaleddau ar gyfer ysgolion cynradd eraill yng Nghymru.

Dywed pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cytuno bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Mae bron pob un ohonynt yn cytuno eu bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio neu'n cael eu gwaith yn anodd. Dywed pob un ohonynt fod yr ysgol yn eu helpu i fod yn iach, ac mae bron pob un ohonynt yn cytuno bod yr ysgol yn rhoi digonedd o gyfleoedd i fod yn gorfforol weithgar.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda a bod athrawon a staff cymorth yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cytuno bod digon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu'n effeithiol; fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn cytuno bod gwaith cartref yn helpu i wella ar eu gwaith yn yr ysgol. Nid yw lleiafrif ohonynt yn cytuno bod pob plentyn yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn ystod amser cinio ac amser egwyl.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Justine Barlow | Arolygydd Lleyg |
| Angela Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Michelle Humphreys | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.